GŴYL DDEWI

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Dwyieithrwydd / Datblygu'r Gymraeg
- Creu casgliad o arteffactau yn ymwneud â Chymru a dysgu'r eirfa berthnasol
- Creu labeli i'r arddangosfa gan ddefnyddio cyfrifiadur
- Trafod yr idiomau yn y llyfrau – 'wrth ei fodd', 'gwalch drwg', 'bechod'
- Creu llyfryn/stori yn cynnwys un idiom
- Disgrifio un o'r cymeriadau
- Cyfarwyddiadau sut i wneud cawl cennin
- Chwilio am eiriau yn dechrau â'r un llythyren ag enwau'r cymeriadau
- Labelu gwahanol rannau o'r ddraig/cennin Pedr
- Creu barddoniaeth syml am un o'r cymeriadau
- Ysgrifennu cerdyn post o Gymru
- Llunio taflen wybodaeth am Gymru
- Trafod at bwy y byddai'r plant yn anfon tusw o flodau, a pham?
- Llunio poster yn rhybuddio fod draig beryglus yn crwydro'r wlad
- Adroddiad papur newydd yn dweud bod rhywun wedi gweld draig beryglus yn y dref a.y.y.b.

Datblygiad Mathemategol
- Trafod blodau tal/byr. Cennin hir/byr
- Sefydlu siop flodau/llysiau a'r plant i chwarae ag arian, prynu, gwerthu, rhoi newid
- Llunio graff o hoff flodau plant y dosbarth
- Setio – mae 3 phetal ar flodyn; sawl petal fyddai gan 5 blodyn a.y.y.b?

Gwyddoniaeth
- Labelu gwahanol rannau'r cennin Pedr
- Arbrofion i weld beth sy'n digwydd os na fydd y blodyn/planhigyn yn cael dŵr/golau
- Rhoi lliw bwyd yn y dŵr a sylwi ar y petalau/dail yn newid lliw
- Tyfu hadau amrywiol yn y dosbarth
- Ymchwilio i'r blodau/coed sy'n tyfu yn yr amgylchedd lleol
- Trafod bwydydd iach/bwydydd nad ydynt yn iach
- Gwneud cawl cennin
- Ymchwilio i wahanol synau. Ymchwilio ac arbrofi i weld pa ddeunydd sydd orau i atal sŵn

Dyniaethau
- Ymgyfarwyddo â hanes Dewi Sant
- Actio rhannau o'r stori
- Adnabod map o Gymru a lleoliad Tyddewi
- Gwneud map syml o'u taith i'r ysgol
- Edrych i lawr ar arteffactau ac edrych arnynt o'r ochr. Cofnodi trwy lun a chymharu'r gwahaniaeth rhyngddynt

Datblygiad Corfforol
- Arbrofi â gwahanol beli – ysbwng, tennis, pêl-droed, rygbi
- Ymchwilio i'r gwahanol ffyrdd o ddanfon peli – rholio, bownsio, cicio, taflu
- Chwarae gemau pêl syml

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- Trafod teimladau – beth sy'n gwneud y plant yn hapus/trist? Beth sy'n achosi iddynt grïo?
- Trafod pwysigrwydd edrych ar ôl a pharchu eiddo rhywun arall
- Cadw'n ddiogel – dim chwarae â matsys; plant i lunio rheolau/poster
- Deialu 999 am gymorth. Trafod o dan ba amgylchiadau y dylid gwneud hynny

Datblygiad Creadigol

- Ymchwilio i offerynnau cerdd llinynnol
- Gwneud offerynnau cerdd syml a chael cyfle i roi perfformiad i'r dosbarth
- Gwrando ar gerddoriaeth telyn
- Creu lluniau/collages o'r gwahanol gymeriadau gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau
- Edrych ar blanhigion/llysiau drwy chwyddwydr a gwneud lluniau manwl
- Defnyddio llysiau i lifo defnydd
- Creu modelau o'r cymeriadau gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau
- Defnyddio llysiau i wneud print

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Trafod pwy ydi Mr Urdd/Mudiad yr Urdd
- Cyfle i'r plant wisgo siôl/clocsiau/gwasgod/het/sgert laes a.y.y.b. a chwarae rhydd
- Trafod beth mae'r plant yn ei hoffi am Gymru

Technoleg Gwybodaeth

Anogir athrawon i hybu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth wrth ymchwilio a chofnodi gwybodaeth